



Bae Dwnrhefn i Drwyn yr As, Bro Morgannwg

Rhyfeddwch at dirwedd ddiddorol Arfordir Treftadaeth Morgannwg, sy'n llawn clogwyni serth, ffurfiannau creigiau garw a ffosilau gwych.

"Nid oes prinder golygfeydd bendigedig ar hyd y rhan hon o Arfordir Treftadaeth Morgannwg, sy'n ymestyn mor bell ag arfordir Gogledd Dyfnaint. Mae hefyd yn ffefryn gan ddaeargwyr lle mae gwely'r môr yn dangos ei nodweddion a ffosilau. Mae'n werth ymweld â goleudy Trwyn yr As, gan ei fod yn oleudy sydd dal yn gweithio."

TRICIA COTTNAM, SWYDDOG LLWYBR ARFORDIR CYMRU

Dechrau a Diwedd:

Canolfan Treftadaeth Bae Dwnrhefn i Drwyn yr As.

Pellter:

7 milltir/7km.

Ar hyd y ffordd...

Dysgwch fwy am fywyd gwyllt, hanes a daeareg yr ardal drwy atw i mewn i Ganolfan Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn Nwnrhefn ar ddechrau'r daith gerdded, sy'n rhoi trosolwg ardderchog o Arfordir Treftadaeth Morgannwg sy'n 23km, ac yn rhedeg rhwng Porthcawl ac Aberddawan.

Mae Bae Dwnrhefn yn boblogaidd gyda syrffwyr a daearegwyr. Cyn i chi ddechrau, archwiliwch y pyllau creigiog a chwilotwch y traeth am ewinedd y cythraul, ffosil wystrys diflanedig o'r cyfnod Triasig.

Oddi yma, mae Llwybr Arfordir Cymru yn mynd tua'r de-ddwyrain heibio gardd furiog Castell hirgoll Dwnrhefn gan ddringo ar glogwyni agored. Mae golygfeydd ysblennydd drwy gydol y daith gerdded tuag at oleudy Trwyn yr As ac ar draws Môr Hafren i arfordir Gogledd Dyfnaint, tra bod cipolwg i lawr yn datgelu carped cymhleth o ffurfiannau creigiau patrymog ar ymyl y dŵr.

Mae'r daith gerdded yn parhau ar hyd llwyfandir glaswelltlog o galchfaen am lawer o'i phellter, gydag ambell i ran serth lle mae nentydd wedi torri dyffrynnoedd dwfn i'r llwyfandir wrth iddynt fynd i lawr i'r traeth. Gwrandewch am yr ehedyddion a chadwch eich llygaid ar agor am frain coesgoch.

Yn Nhrwyn yr As gallwch gael golwg dda ar Oleudy Trwyn yr As, goleudy 200 oed sy'n dal i weithio sydd â chanolfan ymwelwyr ei hun.

Angen gwybod:

Mae meysydd parcio ar ddau ben y daith, gyda thoiledau a bwyd a diod ar gael yn y Ganolfan Arfordir Treftadaeth ym Mharc Dwnrhefn a'r Caffi Treftadaeth yn Nhrwyn yr As.

Gallwch hefyd gysylltu'r ddau ben o gerdded drwy ddal y bws 303 lleol o Southerndown (tua 1km o Fae Dwnrhefn) a Marcroes (tua 1.5 km o Drwyn yr As).

Mae gan wefan gwasanaethau New Adventure Travel (NAT) sy'n cwmpasu Caerdydd, Casnewydd, Abertawe a Phontypridd amserlenni bysiau ar ei gwefan: www.natgroup.co.uk <<http://www.natgroup.co.uk>> ar gyfer amserlenni.